OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 122

## Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002

**Ffurf ragnodedig datganiadau cyllideb a'r wybodaeth sydd i'w chynnwys ynddynt**

**4.**—(1) Rhaid paratoi datganiad cyllideb mewn tair rhan.

(2) Rhaid cwblhau Rhan 1 yn Gymraeg ac yn Saesneg yn y ffurf a ragnodir yn Atodlen 1 a rhaid cynnwys yr wybodaeth, mewn perthynas â gwariant cynlluniedig yr awdurdod ar gyfer pob ysgol am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad cyllideb yn berthnasol iddi, a bennir yn y nodiadau yn y ffurflen honno;

(3) Rhaid cwblhau Rhan 2 yn Gymraeg ac yn Saesneg yn y ffurf a ragnodir yn Atodlen 2 a rhaid cynnwys yr wybodaeth mewn perthynas â fformwla ddyrannu'r awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad cyllideb yn berthnasol iddi a bennir yn y nodiadau yn y ffurflen honno; a

(4) Gellir cwblhau Rhan 3 yn Gymraeg neu'n Saesneg (neu'r ddwy) a rhaid cynnwys yr wybodaeth mewn perthynas â chyfran pob ysgol o'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad cyllideb yn berthnasol iddi a bennir yn Atodlen 3.

(5) Rhaid i faint y ffont a ddefnyddir beidio â bod yn llai na 7pt.

(6) Rhaid i'r wybodaeth ganlynol ymddangos ar frig bob Rhan o ddatganiad cyllideb:

(a) Y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad cyllideb yn berthnasol iddi;

(b) Enw'r awdurdod;

(c) Rhif AALl yr awdurdod;

(ch) Y rhif fersiwn neu'r rhif "1" os hon yw'r fersiwn gyntaf; a

(d) Y dyddiad y cafodd y ffurflen ei chwblhau.

(7) At ddibenion cwblhau datganiadau cyllideb, mae ysgol ganol i'w thrin fel ysgol gynradd neu ysgol uwchradd, yn ôl fel y digwydd, yn ôl sut y mae'r ysgol i'w thrin at ddibenion penderfynu ei chyfran o'r gyllideb o dan fformwla ddyrannu'r awdurdod.

(8) Os oes person yn cyflawni swyddogaethau ar ran awdurdod, rhaid i'r awdurdod gynnwys gwybodaeth yn Rhannau 1 i 3 o'r datganiad cyllideb fel pe bai gwariant gan y person hwnnw wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny yn wariant gan yr awdurdod.